# YSGOL GYNRADD GYMRAEG BRYN -Y- MÔR

*Pennaeth/ Headteacher: Mrs Elin Wakeham*

Mewn undod mae nerth /Stronger together

02.09.21

Annwyl Riant / Gofalwr

Hoffwn ddiolch i'r holl rieni am wneud i ddechrau a diwedd y dydd redeg mor esmwyth. Mae'n gweithio'n dda! Mae disgyblion hefyd wedi cael dechrau anhygoel o gadarnhaol a hapus i'r tymor ac wedi ymgartrefu'n dda.

**Covid 19**

Yn anffodus, rydym wedi gweld lefel uchel iawn o achosion cadarnhaol Covid ymysg staff a disgyblion ers inni ddychwelyd i'r ysgol. Y canllawiau ar hyn o bryd yw, os yw'ch plentyn yn arddangos unrhyw un o symptomau Covid 19, gan gynnwys y symptomau ehangach a nodwyd, rhaid i chi **beidio** ag anfon eich plentyn i'r ysgol a **rhaid** i chi fynd â'ch plentyn am brawf PCR. **Rhaid** i'ch plentyn aros adref nes bydd canlyniad y prawf hwn yn cael ei ddychwelyd.

Symptomau pwysicaf COVID-19 yw unrhyw un o'r canlynol:

- Peswch parhaus newydd
- tymheredd uchel
- colli, neu newid yn eich synnwyr arferol o flasu neu arogl (anosmia)

Os oes gan eich plentyn unrhyw un o'r rhestr newydd o symptomau:

- Myalgia (poen yn y cyhyrau)
- Blinder sy'n fwy na'r arfer
- Cur pen parhaus
- Trwyn yn rhedeg neu wedi'i flocio;
- Gwddf tost
- Byrder anadl
- Cyfog, chwydu neu ddolur rhydd.

**Cysylltiadau agos**

Os anabyddir eich plentyn fel **cyswllt agos** ag achos cadarnhaol, bydd TTP yn cynghori eich bod yn mynd â'ch plentyn am **brawf PCR** (fel arfer ar yr 2il a'r 8fed diwrnod o gael ei adnabod), ond y bydd eich plentyn yn dal i allu dod i'r ysgol **oni bai** eu bod yn arddangos symptomau. **Bydd cefnogi TTP yn helpu i gefnogi iechyd cyhoeddus yr ysgol a cheisio rheoli lledaeniad y firws.**

**Beth sy'n digwydd yn nosbarth / adran eich plentyn?**

Mae staff eisoes wedi dechrau trefnu cyfleoedd / profiadau cyffrous i'ch plant. Fodd bynnag, oherwydd y nifer uchel o achosion cadarnhaol Covid yng nghymuned yr ysgol, rydym wedi penderfynu darparu cyflwyniadau croesawu rhith eleni. Bydd staff yn yr adrannau yn paratoi cyflwyniad rhith i chi drwy dudalennau'r dosbarth ar wefan yr ysgol a thrwy Parentmail. Byddant ar gael erbyn diwedd wythnos nesaf. Os oes gennych unrhyw gwestiynau, e-bostiwch eich cwestiynau i'r ysgol erbyn dydd Mercher (15.9.2021) a bydd staff yr adran yn ceisio eu hateb yn eu cyflwyniadau.


**Ysgol Gynradd Gymraeg Bryn y Môr, St Albans Road, Brynmill, Swansea, SA2 0BP**

**E-bost/ E-mail: ygg.brynymor@swansea-edunet.gov.uk**

**Gwefan/ Website: www.yggbrynymor.co.uk**

**Trydar/Twitter: @YGGBrynymor1**

**Ffôn/ Tel: 01792 466354**

**YSGOL GYNRADD GYMRAEG BRYN -Y- MÔR**

*Pennaeth/ Headteacher: Mrs Elin Wakeham*

Mewn undod mae nerth /Stronger together


Yn Gywir,

E. Wakeham

Elin Wakeham
Pennaeth


**Ysgol Gynradd Gymraeg Bryn y Môr, St Albans Road, Brynmill, Swansea, SA2 0BP**
**E-bost/ E-mail: ygg.brynymor@swansea-edunet.gov.uk**
**Gwefan/ Website: www.yggbrynymor.co.uk**
**Trydar/Twitter: @YGGBrynymor1**
**Ffôn/ Tel: 01792 466354**